Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

LEWIS, REES ('Eos Ebrill'; 1828 - 1880), cerddor

Enw: Rees Lewis
Ffugenw: Eos Ebrill
Dyddiad geni: 1828
Dyddiad marw: 1880
Rhiant: William Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Addysg; Cerddoriaeth
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd yn 1828 yn Twyn Cynordy, ger Brynmawr, sir Frycheiniog, mab William Lewis, a oedd yn gerddor lled dda ac yn arweinydd y canu yng nghapel Nebo, Penycae. Cafodd wersi cerddorol gan ei dad a chan gerddor o Sir Benfro a ddaeth i fyw i'r ardal. Dygwyd ef i fyny yn ysgolfeistr, a bu am ddwy flynedd yng Ngholeg Borough Road, Llundain. Bu'n cadw ysgol yn y Blaenau, Mynwy, ac oddi yno symudodd i Gaerdydd. Yr oedd yn gerddor galluog, yn arweinydd medrus, a llafuriodd yn ddyfal i ddyrchafu chwaeth a meithrin cerddoriaeth glasurol yng Nghaerdydd a'r cylch. Ffurfiodd y ' Cardiff Philharmonic Society,' a rhoddodd amryw berfformiadau o weithiau cerddorol y meistri. Bu'n arwain seindorf hefyd am dymor hir. Yr oedd yn chwaraewr da ar y ffidil. Cyfansoddodd amryw ddarnau cerddorol a chyhoeddwyd ei anthem, ' Arglwydd, gollwng, ' yn *Y Gerddorfa*, rhifau 76 a 77. Yr oedd wedi dethol a chasglu tonau at wasanaeth y Bedyddwyr, ond ni chyhoeddwyd y llyfr. Bu farw 14 Rhagfyr 1880.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Y Cerddor, Gorphenaf 1893, t.77

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734206

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Griffith, R. D., (1953). LEWIS, REES ('Eos Ebrill'; 1828 - 1880), cerddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LEWI-REE-1828

Copïo'r Cliplwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government